CBAC
WJEC

# TAG UG/Uwch

1373/51

## CYMRAEG: IAITH GYNTAF CY3
## DEFNYDDIO'R IAITH, A BARDDONIAETH
## (Papur Ysgrifenedig)

P.M. DYDD IAU, 17 Mai 2012

2 awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Awgrymir eich bod yn treulio ¾ awr ar Adran A ac 1¼ awr ar Adran B.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

**Ni chaniateir defnyddio copïau o farddoniaeth na geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

## Adran A

## Defnyddio Iaith

**1.** Atebwch **bob** rhan o'r cwestiwn hwn. Cewch eich gwobrwyo am greu brawddegau sy'n ieithyddol gywir.

*(a)* Defnyddiwch y canlynol mewn brawddegau gwreiddiol, **un** ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd: [10]

clyw ef
deuai
nad arhosodd
naill ai
rhagddo

*(b)* Mae **dau** wall ymhob un o'r brawddegau isod. **Lluniwch dair colofn**: yn y gyntaf nodwch y camgymeriad, yn yr ail cywirwch ef, ac yn y drydedd nodwch eich rheswm dros gywiro. [20]

(i) Gadewais y car wrth y gatiau a gyfeiriwyd fi at.

(ii) Byddwn ni'n deall y cyfarwyddiadau ar y daflen pe bai'r ysgrifen ddim mor flêr.

(iii) Gwelwyd gynnwrf mawr yn y clwb pan y siaradodd arwr y tîm buddugol.

(iv) Rydw i'n gwybod bod ni wedi ymweld hefo'r castell yma yn y gorffennol.

(v) Dangosir y canwr iddo ennill, yn bendant, calonnau'r gynulleidfa.

*(c)* Canolfan bywyd gwyllt yw *Corlan.* Dyma ran o gyflwyniad sy'n ymddangos ym mhecyn gwybodaeth y ganolfan.

Mae **deg gwall** yn y darn isod. **Ailysgrifennwch** y darn gan **danlinellu** pob gwall a **gywirwyd**.

[10]

Cynlluniodd y ganolfan gan y pensaer mewn modd creadigol a gwreiddiol gan ddefnyddio nifer o elfennau cynaladwy. Dyma safle a ellid ei ystyried yn ddelfrydol ar gyfer tripiau addysgol a cheir rhaglen lliwgar o ddigwyddiadau. Yma nawr cafwyd gwledd o gelfyddyd fodern gan artistiaid lleol. Fe'i h'ysbrydolwyd hwy gan fywyd cefn gwlad. Mae'r ganolfan yn cael llwybrau beicio sy'n addas ar gyfer teuluoedd. Tra yn ymlacio, 'does unman gwell na'r 'Caban' i gael pryd o fwyd blasus. Y nod yw i hybu bywyd gwledig ac mae pethau'n edrych i fyny.

## Adran B

## Barddoniaeth

**2.** Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r canlynol.

*Wrth ateb, dylech gofio:*

- *defnyddio nifer digonol o gerddi (o leiaf dair cerdd) wrth ymateb i ofynion y cwestiwn*
- *dadansoddi arddull*
- *cymharu gweithiau'r beirdd lle bo'n briodol*
- *defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.*

**Naill ai**

*(a)* **Cymharwch** waith Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd, gan ganolbwyntio ar eu **defnydd o bobl** yn eu gwaith. Wrth ystyried y cerddi hyn a astudiwyd gennych, dylech **gymharu'r** cerddi o ran **cynnwys ac arddull** ac ystyried **arwyddocâd y bobl** y cyfeirir atynt. [80]

**Neu**

*(b)* Trafodwch a chymharwch **syniadaeth a themâu'r cerddi** o waith Gwyn Thomas a Ceri Wyn Jones a astudiwyd gennych. Wrth **eu cymharu** cofiwch gyfeirio at **gynnwys** ac **arddull** y beirdd. [80]

CBAC WJEC

# TAG UG/Uwch

1373/51-A

## CYMRAEG - IAITH GYNTAF CY3
## WELSH - FIRST LANGUAGE CY3
### DEFNYDDIO'R IAITH, A BARDDONIAETH
### USE OF LANGUAGE, AND POETRY

(Arholiad Ysgrifenedig)
(Written Examination)

P.M. DYDD IAU, 17 Mai 2012
P.M. THURSDAY, 17 May 2012

2 awr
2 hours

**Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau**
***For the attention of the Examinations Officer***

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogysal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Awgrymir eich bod yn treulio ¾ awr ar Adran A ac 1¼ awr ar Adran B.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

**Ni chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*In addition to this paper, you will need a 12 page answer book.*

***INSTRUCTIONS TO CANDIDATES***

*Use black ink or black ball-point pen.*

*Answer the **two** questions.*

*Write your answers in the answer booklet that is provided.*

*Where it is necessary to express your opinions you should give reasons for them and refer to the opinions of others when appropriate.*

*You are reminded that assessment will take into account the quality of written language in your answer.*

*You are advised to spend ¾ hour on Section A and 1¼ hours on Section B.*

*You should spend 15 minutes to plan your essay in Section B.*

***Copies of the poetry studied and dictionaries are not permitted in this examination.***

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks is specified in brackets at the end of each question or part-question.*